| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **11 Hydref 2010** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2009/2010** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a mabwysiadu'r adroddiad** |

**Cefndir**

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylai gyhoeddi adroddiad blynyddol. Byddai hyn yn fodd o gyflwyno'r Pwyllgor a'i waith i aelodau Cyngor Gwynedd a'r cynghorau cymuned a thref, ac i godi ei broffil.

Yn yr adroddiad hwn cynigaf gynnwys ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor. Gellid paratoi'r adroddiad ar ffurf llyfryn ac yn ogystal â'r wybodaeth isod gellid cynnwys rhagair gan y Cadeirydd ac ychydig o gefndir yr aelodau eu hunain.

## ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

### Cyfansoddiad y Pwyllgor

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('aelodau annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau tref/cymuned ('aelod pwyllgor cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

Gall y ffaith fod y gyfraith yn mynnu bod mwyafrif o aelodau annibynnol yn bresennol er mwyn cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor achosi trafferthion. Penderfynwyd felly gynyddu nifer yr aelodau hynny o bedwar i bump. Yn dilyn y broses statudol o hysbysebu a chyfweld, penodwyd Gwyn Williams ym mis Hydref 2009 fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethau am gyfnod o chwe blynedd. Golyga hyn fod gan y pwyllgor naw o aelodau i gyd (sef yr uchafswm a ganiateir):

- pum aelod annibynnol
- un aelod pwyllgor cymunedol
- tri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd,

### Gwaith y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried a phenderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Côd Ymddygiad. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am

ollyngiadau i’w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy’n rhagfarnu o dan y Cod. Serch hynny, mae’r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau a’u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Penderfynodd y Pwyllgor felly y dylid datblygu’r rôl yma ymhellach a chodi proffil y Pwyllgor ymysg aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.

Rhaglen Waith

Y cam cyntaf yn y broses yma oedd sefydlu Rhaglen Waith ar gyfer y Pwyllgor gan osod dyddiadau pendant ar gyfer cyfarfodydd yng nghalendr y Cyngor. Atodir y rhaglen fel **Atodiad**.

Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelod / Swyddog

Datblygodd y Pwyllgor brotocol i roi arweiniad i aelodau etholedig a swyddogion Cyngor Gwynedd yng nghyd-destun eu perthynas a’i gilydd. Mae’r ddogfen yn cynnig arweiniad ar y mathau o sefyllfaoedd sy’n medru creu anawsterau yn y berthynas rhwng cynghorwyr a swyddogion, gan geisio hybu mwy o eglurder a sicrwydd. Yr egwyddorion sy’n sail i’r protocol yma yw:

- Dealltwriaeth gan aelodau a swyddogion o ofynion swyddogaethau gwahanol y naill a’r llall.
- Parch at amser a blaenoriaethau’r naill a’r llall.
- Cwrteisi a sensitifrwydd ar bob adeg.

Mae’r protocol hefyd yn cynnwys trefn i ymdrin â honiadau fod aelod wedi torri’r protocol. Gall hyn arwain at wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, sydd â’r hawl i geryddu’r aelod.

‘Safon Gwynedd’

Penderfynodd y Pwyllgor ddatblygu protocol lleol fyddai’n fodd i ddatrys cwynion o gam ymddwyn gan aelod yn erbyn aelod arall drwy drefn leol heb fynd ar gŵyn i’r Ombwdsmon. Bwriad y ddogfen, ‘Safon Gwynedd’, yw sefydlu pa ymddygiad gan aelodau sy’n dderbyniol a pha ymddygiad sy’n annerbyniol. Ni fwriedir iddi gymryd lle'r Cod Ymddygiad. Yn hytrach bwriedir iddi weithio ochr yn ochr â’r Cod Ymddygiad a llenwi’r bwlch rhwng ymddygiad sydd efallai ddim ynddo’i hun yn ddifrifol, ond sydd eto yn creu annifyrrwch rhwng aelodau’r Cyngor ac ymddygiad sy’n cyrraedd y trothwy, sydd ddigon difrifol i’r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddo. Cyn cael ei mabwysiadau bydd rhaid cyflwyno’r ddogfen i’r Cyngor llawn am gymeradwyaeth.

Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Croesawyd Mr Harry Thomas, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror. Croesawodd y bwriad i sefydlu Rhaglen Waith, a chyfeiriodd at bwysigrwydd dyletswyddau’r Pwyllgor Safonau. Tanlinellwyd hyn ymhellach ganddo gan nodi fod disgwyliadau arbennig parthed ymddygiad o fewn Cyngor o faint Gwynedd sydd gyda throsiad blynyddol o £400miliwn.

Ychwanegodd fod Gwynedd yn eithaf anghyffredin gan fod pum plaid wleidyddol wedi eu cynrychioli o fewn y Cyngor a bod angen addasu ar gyfer hyn. Wrth groesawu'r Rhaglen Waith galwodd am gydweithrediad y Pwyllgor Safonau er budd Gwynedd ac yr oedd am iddynt leisio barn yn ôl yr angen.

Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol

Cyfarfu'r Pwyllgor ag arweinyddion grwpiau gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mai. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r hyn y gallai'r Pwyllgor ei wneud i hybu a chynnal safonau ymddygiad. Trafodwyd hefyd yr angen i ganiatáu trafodaethau a dadleuon gwleidyddol ond i wneud hynny mewn ffordd broffesiynol a chwrtais gan warchod enw da'r Cyngor.

Canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad

Ym mis Tachwedd 2009, ymgynghorodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ganllawiau drafft yr oedd wedi eu paratoi ar y Cod Ymddygiad. Ystyriodd y Pwyllgor y canllawiau yn ei gyfarfod ym mis Chwefror ac anfon ei sylwadau at yr Ombwdsmon. Cyhoeddwyd y Canllawiau terfynol ym mis Ebrill 2010 ac anfonwyd copi at bob aelod o Gyngor Gwynedd. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnal hyfforddiant ar y canllawiau, i aelodau'r Pwyllgor ei hun yn gyntaf ac yna i aelodau Cyngor Gwynedd a'r cynghorau tref a chymuned. Y bwriad felly yw cynnal sesiynau hyfforddiant yn gynnar yn 2011.

**Gollyngiadau**

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. gollyngiad.

Ystyriodd y Pwyllgor 7 cais am ollyngiad yn ystod y cyfnod yma. Roedd 6 ohonynt gan aelodau o Gyngor Gwynedd mewn cysylltiad â'r trafodaethau ar drefniadaeth ysgolion cynradd. Roedd y llall yn gais gan aelod o gyngor tref. Gwrthodwyd dau gais yn llwyr ond caniatawyd y lleill yn llawn neu yn rhannol.

**Honiadau yn erbyn aelodau**

Adroddodd yr Ombwdsmon yn ei Adroddiad Blynyddol y bu cynnydd o 24% yn nifer y cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol ar draws Cymru. Roedd yn pryderu am y duedd hon ond yn mawr obeithio y byddai aelodau yn ystyried y cyngor a'r cyfarwyddid a roddir yn ei Ganllawiau a bydd y nifer y cwynion yn lleihau yn y flwyddyn i ddod.

O safbwynt Gwynedd, cafwyd penderfyniad gan yr Ombwdsmon ar saith cwyn - pump yn erbyn aelodau o gynghorau tref/cymuned a dwy yn erbyn aelodau o Gyngor Gwynedd. Ni chyfeiriwyd unrhyw achos i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniad.

| Honiad | Penderfyniad |
|---|---|
| Diffyg parch a bwlio | Peidio parhau gyda’ r ymchwiliad |
| Diffyg parch a bwlio | Peidio parhau gyda’ r ymchwiliad |
| Dwyn anfri ar y swydd neu’r awdurdod | Tynnwyd yr adroddiad yn ôl gan yr Ombwdsmon |
| Methu datgelu buddiant personol | Dim ymchwiliad |
| Dwyn anfri | Ymchwiliad yn parhau |
| Dwyn anfri | Peidio parhau gyda’r ymchwiliad |
| Dim rheswm o dan y cod | Dim ymchwiliad |
| Dim rheswm dan y Cod | Dim ymchwiliad |

**Cynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru**

Mynychodd aelodau o’r Pwyllgor Gynhadledd Safonau Cymru 2009 - ‘Cymru:Gwlad Foesegol’, ar 15 Hydref 2009 yng Nghaerdydd. Cafwyd nifer o gyflwyniadau gan, ymysg eraill, Gadeirydd Pwyllgor Safonau a Moeseg Cyngor Caerdydd, Dr Brian Woods-Scawen o’r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a Peter Tyndall Ombwdson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal â hyn cafodd bawb y siawns fynychu gweithdai ar bynciau megis Safonau a Moesau mewn Cynghorau Cymuned a Thref a Datblygu Arfer Gorau. Os daethpwyd yn ôl ag un neges yna hynny oedd pwysigrwydd codi proffil y Pwyllgor Safonau.

Cynhelir y Gynhadledd eleni yng Nghaerdydd ar 14 Hydref.

**Argymhelliad**

Gofynnir i’r pwyllgor gynnig sylwadau a mabwysiadu’r adroddiad.